**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**16eg Gorffennaf 2012**

**AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL**

**Adroddiad gan Victoria DeZouche, KPMG**

**Diben yr Adroddiad**

1 I gyflwyno'r Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol i'r Aelodau.

**Cefndir**

2 Paratoir yr Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol yn flynyddol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i'r Awdurdod o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2011-12.

3 O dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am benodi archwilwyr allanol ar gyfer cyrff llywodraeth leol - KPMG sydd wedi ei benodi ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

**Gwybodaeth**

4 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn archwilio ac ardystio cyfrifon yr Awdurdod, i sicrhau eu bod:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod;
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol; ac
- wedi'u paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol.

5 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hefyd fod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ac ardystio bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

**Argymhelliad**

6 Argymhellir fod Aelodau yn nodi'r Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol.